
OFFERYNNAU STATUDOL

2018 Rhif 366

TRAFNIDIAETH

Rheoliadau Rheilffyrdd (Tocynnau Cosb) 2018

Gwnaed - - - 12 Mawrth 2018

Cyflwynwyd gerbron y Senedd 15 Mawrth 2018

Yn dod i rym - - 6 Ebrill 2018

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130(1) i (4) a (7) a 143(3) a (4) Deddf Rheilffyrdd 1993(1).

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi, cychwyn a rychwant

1. Mae'r Rheoliadau hyn—
 - (a) yn cael eu henwi yn Rheoliadau Rheilffyrdd (Tocynnau Cosb) 2018;
 - (b) yn dod i rym ar 6 Ebrill 2018; ac
 - (c) yn rychwantu cymru a Lloegr a'r Alban.

Cymhwyso

- 2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â—
 - (a) gwasanaeth teithwyr rheilffordd (2) o fewn cwmpas paragraff (2); ac
 - (b) unrhyw orsaf(3) lle mae gwasanaeth teithwyr rheilffordd o fewn cwmpas paragraff (2) yn gwneud galwad a drefnwyd(4).

(1) [1993 c. 43](#); diwygiwyd adran 130 gan adran 47 Deddf Rheilffyrdd 2005 a Rhan 1 Atodlen 1 Deddf Rheilffyrdd 2005 (p. 14). Mae diwygiadau eraill i adrannau 130 a 143 nad ydynt yn berthnasol i'r S.I. hwn. Gweler adran 130(12) am ystyr "casglwyr" a "rhagnodedig".

(2) Yn rhinwedd adran 130(12) Deddf Rheilffyrdd 1993, mae'r diffiniad o "wasanaeth teithwyr rheilffordd" yn adran 83(1) y Ddeddf honno yn gymwys at ddibenion adran 130.

(3) Yn rhinwedd adran 130(12) Deddf Rheilffyrdd 1993 mae'r diffiniad o "orsaf" yn adran 83(1) o'r Ddeddf honno yn gymwys at ddibenion adran 130 yn ddarostyngedig i'r diffiniad pellach yn adran 130(12).

(4) Yn rhinwedd adran 130(12) Deddf Rheilffyrdd 1993 mae'r diffiniad o "alwad wedi'i threfnu" yn adran 83(1) y Ddeddf honno (a fewnosodwyd i'r is-adran honno gan baragraff 37(3) Atodlen 1 i Ddeddf Rheilffyrdd 2005) yn gymwys at ddibenion adran 130.

- (2) Mae gwasanaeth teithwyr rheilffordd o fewn cwmpas y paragraff hwn oni bai ei fod—
- (a) yn cael ei ddarparu o dan gytundeb masnachfaint yr Alban(5);
 - (b) yn wasanaeth yn yr Alban yn unig (6);
 - (c) yn wasanaeth y sicrheir ei ddarpariaeth gan Weinidogion yr Alban; neu
 - (d) fe'i darperir gan—
 - (i) Transport for London neu unrhyw un o'i is-gwmnïau; neu
 - (ii) unrhyw berson yn unol â chytundeb a wnaed gan Transport for London o dan adran 156(2) neu (3)(a) Deddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999(7), neu yn unol â chytundeb is-gwmni trafndiaeth(8).

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “Rheoliadau 1994” yw Rheoliadau Rheilffyrdd (Tocynnau Cosb) 1994(9);

ystyr “Panel Apêl” yw corff, sy'n cydymffurfio â gofynion rheoliad 15(1), sy'n ystyried apelau o dan reoliadau 16 a 17 ac ystyr “y Panel Apêl perthnasol” mewn perthynas â gweithredwr, yw'r Panel Apêl sy'n ystyried apelau o dan y rheoliadau hynny yn erbyn tocynnau cosb a godir ar ran y gweithredwr hwnnw;

ystyr “Trefn Apelio” yw'r drefn a nodir yn Atodlen 2;

ystyr “gweithredydd awdurdodedig”, mewn perthynas â chasglwr, yw'r gweithredwr a awdurdododd y casglwr i godi tocynnau cosb o dan reoliadau 10(5) neu 10(6);

ystyr “ardal tocynnau gorfodol” yw unrhyw ardal mewn gorsaf na chaiff person fynd i mewn iddi neu fod yn bresennol ynddi heb allu dangos—

(a) tocyn teithio dilys sy'n awdurdodi teithio ar drên sy'n cyrraedd neu'n gadael yr ardal honno; neu

(b) docyn plattform sy'n awdurdodi eu mynediad neu eu presenoldeb yn yr ardal honno;

ystyr “Panel Apêl” yw corff, sy'n cydymffurfio â gofynion rheoliad 15(2), sy'n ystyried apelau o dan reoliadau 18 ac ystyr “y Panel Apêl perthnasol” mewn perthynas â gweithredwr, yw'r Panel Apêl Terfynol sy'n ystyried apelau o dan y rheoliad hwnnw yn erbyn tocynnau cosb a godir ar ran y gweithredwr hwnnw;

ystyr “rhif adnabod”, mewn perthynas â chasglwr, yw rhif unigryw neu god alffaniwmerig a aseiniwyd gan y gweithredwr awdurdodi i'r casglwr at ddibenion adnabod;

ystyr “gweithredwr”, mewn perthynas ag unrhyw drên, yw'r person sy'n rheoli'r trên hwnnw bryd hynny ac, mewn perthynas ag unrhyw orsaf, mae'n golygu'r person sy'n rheoli'r orsaf honno bryd hynny, a dehonglir “gweithredu” yn unol â hynny;

ystyr “rhif tocyn cosb” yw rhif neu god alffaniwmerig sy'n unigryw i docyn cosb unigol a godir ar ran unrhyw weithredwr;

ystyr “tocyn plattform” yw tocyn neu awdurdodiad amgen sy'n caniatáu i berson fynd i neu fod yn bresennol mewn ardal tocynnau gorfodol ac eithrio at ddibenion teithio;

(5) Yn rhinwedd adran 130(12) Deddf Rheilffyrdd 1993 mae'r diffiniad o “cytundeb masnachfaint Yr Alban” yn adran 83(1) y Ddeddf honno (a fewnosodwyd i'r is-adran honno gan baragraff 37(3) Rhan 2, Atodlen 1 i Ddeddf Rheilffyrdd 2005) yn gymwys at ddibenion adran 130.

(6) Yn rhinwedd adran 130(12) Deddf Rheilffyrdd 1993 mae'r diffiniad o “gwasanaeth yn Yr Alban yn unig” yn adran 83(1) y Ddeddf honno (a fewnosodwyd i'r is-adran honno gan baragraff 37(3) Rhan 2, Atodlen 1 i Ddeddf Rheilffyrdd 2005) yn gymwys at ddibenion adran 130.

(7) 1999 c. 29.

(8) Diffinnir “cytundeb is-gwmni trafndiaeth” yn adran 169 Deddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999.

ystyr “trên blaenorol”, mewn perthynas â thrên y mae person yn teithio arno, yn bresennol arno neu yn ei adael, yw unrhyw drên-

- (a) y teithiodd y person arno, fel rhan o'r un daith, cyn newid i'r trên hwnnw; a
- (b) a oedd yn cael ei weithredu gan yr un gweithredwr â'r trên hwnnw;

ystyr “tocyn teithio” yw tocyn neu awdurdod arall sy'n awdurdodi person i deithio ar wasanaeth teithwyr rheilffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo;

ystyr “diwrnod gwaith” yw unrhyw ddiwrnod heblaw—

- (a) dydd Sadwrn neu ddydd Sul;
- (b) Dydd Nadolig;
- (c) Dydd Gwener y Grogolith;
- (d) diwrnod sy'n wyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(10) yng Nghymru a Lloegr.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) mae unrhyw gyfeiriad at “docyn teithio dilys” yn gyfeiriad at docyn teithio sydd ym meddiant person ac sy'n ddilys ar gyfer—

- (i) diwrnod ac amser y daith y mae'r person hwnnw'n ei gwneud, wedi'i gwneud neu'n bwriadu ei gwneud;

- (ii) y trên a'r llwybr a ddefnyddiwyd ar gyfer y daith honno;

- (iii) oedran y person hwnnw;

- (iv) ei ddefnyddio gydag unrhyw gerdyn rheilffordd sydd ym meddiant y person hwnnw y mae ganddo hawl i'w ddefnyddio ar gyfer y daith honno;

- (v) ei ddefnyddio mewn cyfuniad ag unrhyw docyn teithio arall sydd ym meddiant y person hwnnw y mae ganddo hawl i'w ddefnyddio ar gyfer y daith honno; a'r

- (vi) dosbarth teithio a ddefnyddir gan y person hwnnw; a

- (b) mae unrhyw gyfeiriad at berson yn gadael trên yn cynnwys person sy'n bresennol neu'n gadael—

- (i) gorsaf, ar ôl gadael trên a gyrhaeddodd yr orsaf honno; neu

- (ii) ardal tocynnau gorfodol, ar ôl gadael trên a gyrhaeddodd yr ardal tocynnau gorfodol honno.

(3) Pan fo'r telerau ar gyfer dyroddi tocyn teithio yn ei gwneud yn ofynnol i'r deiliad ddangos ar gais unrhyw ddogfen arall(11) wrth ddefnyddio'r tocyn hwnnw ar gyfer teithio, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at docyn teithio yn cynnwys dogfen o'r fath.

RHAN 2

Tocynnau Cosb

Gofyniad i ddangos tocyn

4.—(1) Rhaid i berson sy'n teithio ar drên, yn bresennol ar drên neu'n ei adael, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan neu ar ran gweithredwr, ddangos tocyn teithio dilys.

(2) Rhaid i berson sy'n bresennol mewn neu'n gadael ardal tocynnau gorfodol, ac eithrio o ganlyniad i adael trên a gyrhaeddodd yr ardal tocynnau gorfodol honno, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan neu ar ran gweithredwr ddangos—

- (a) tocyn teithio dilys; neu

(10) [1971 c. 80](#).

(11) Gweler adran 130(12) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 ([p.43](#)) am ystyr “dogfen”

- (b) tocyn plattform pan nad yw'r person hwnnw'n bwriadu mynd ar drên at ddiben teithio.
- (3) Ym mharagraff (1) mae'r cyfeiriad at "weithredwr" yn gyfeiriad at weithredwr—
- (a) y trên y mae'r person dan sylw yn teithio ynddo, yn bresennol arno neu'n ei adael;
- (b) yr orsaf, pan fo'r person dan sylw yn bresennol mewn neu'n gadael gorsaf, ar ôl gadael trên a gyrhaeddodd yr orsaf honno; neu
- (c) pan fo'r person o dan sylw yn bresennol mewn neu'n gadael ardal tocyn gorfodol, ar ôl gadael trên sy'n cyrraedd yr ardal tocynnau gorfodol honno—
- (i) yr orsaf y mae'r ardal tocyn gorfodol yn rhan ohoni; neu
- (ii) unrhyw drên sy'n cyrraedd neu'n gadael yr ardal tocynnau gorfodol.
- (4) Ym mharagraff (2) mae'r cyfeiriad at "weithredwr" yn gyfeiriad at weithredwr—
- (a) yr orsaf y mae'r ardal tocyn gorfodol yn rhan ohoni; neu
- (b) unrhyw drên sy'n cyrraedd neu'n gadael yr ardal tocynnau gorfodol.

Tocynnau cosb

5.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 6, 7 a 10, os yw person yn methu â dangos tocyn plattform neu docyn teithio dilys yn unol â rheoliad 4, caiff casglwr godi tocyn cosb ar y person hwnnw.

(2) Pan fo casglwr yn codi tocyn cosb ar berson o dan baragraff (1), rhaid i'r casglwr roi'r wybodaeth ganlynol i'r person hwnnw yn ysgrifenedig ar yr adeg y codir y tocyn cosb—

- (a) datganiad y codir tocyn cosb ar y person;
- (b) esboniad ynghylch pam y codir tocyn cosb ar y person;
- (c) rhif adnabod y casglwr;
- (d) enw'r gweithredwr y codir y tocyn cosb ar ei ran;
- (e) rhif y tocyn cosb;
- (f) swm y tocyn cosb;
- (g) datganiad bod gan y person hawl i apelio yn erbyn y tocyn cosb ac esboniad ynghylch sut y gall y person apelio;
- (h) datganiad bod rhaid i'r person naill ai dalu, neu apelio yn erbyn, y tocyn cosb o fewn 21 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y codwyd y tocyn cosb;
- (i) esboniad ynghylch sut y gellir talu'r tocyn cosb; a
- (j) datganiad bod gan y person hawl i gael derbynneb os yw'n talu'r tocyn cosb.

(3) Pan fo person y codir tocyn cosb arno o dan baragraff (1) yn talu'r tocyn cosb, neu ran ohono, rhaid i'r person hwnnw gael cadarnhad ysgrifenedig ar unwaith bod y tocyn cosb o dan sylw wedi'i dalu, neu wedi'i dalu'n rhannol, yn ôl y digwydd.

(4) Pan na ddarperir cadarnhad ysgrifenedig o daliad i berson a ddisgrifir ym mharagraff (3), mae gan y person hwnnw hawl i gael ad-daliad ar unwaith am y swm a dalwyd, ond mae'r person hwnnw'n parhau i fod yn atebol am swm llawn y tocyn cosb yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), mae tocyn cosb a godir o dan baragraff (1) i berson sy'n teithio ar drên neu sy'n bresennol ar drên yn awdurdodi'r person hwnnw i—

- (a) deithio ar y trên hwnnw cyn belled â'r orsaf nesaf lle mae'r trên i fod i wneud galwad wedi'i threfnu, ond dim pellach na hynny; a
- (b) gadael yr orsaf berthnasol a ddisgrifir yn is-baragraff (a), gan gynnwys gadael drwy unrhyw ardal tocyn gorfodol.

(6) Nid yw paragraff (5) yn gymwys pan fo'r trê'n, ar yr adeg y codir tâl am docyn cosb o dan baragraff (1), yn llonydd mewn gorsaf a bod digon o gyfle i'r person dan sylw adael y trê'n yn yr orsaf honno.

(7) Mae tocyn cosb a godir o dan baragraff (1)—

- (a) yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (6); neu
- (b) i berson sy'n gadael trê'n,

yn awdurdodi'r person hwnnw i adael y trê'n a gadael yr orsaf, gan gynnwys gadael drwy unrhyw ardal tocyn gorfodol.

(8) Pan fo person sy'n bresennol mewn neu'n gadael ardal tocyn gorfodol, ac eithrio o ganlyniad i adael trê'n a gyraeddodd yr ardal tocynnau gorfodol honno, yn cael tocyn cosb o dan baragraff (1), mae'r tocyn cosb hwnnw'n awdurdodi'r person hwnnw i adael yr ardal tocyn gorfodol a gadael yr orsaf y mae'r ardal tocyn gorfodol yn rhan ohoni.

(9) Mae paragraffau (5) i (8) yn gymwys pa un a oes unrhyw daliad wedi ei wneud mewn perthynas â'r tocyn cosb a godwyd ai peidio.

Tocynnau cosb – eithriadau i deithwyr trê'n

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), ni ddylid codi tocyn cosb ar berson sy'n teithio ar drê'n, yn bresennol ar drê'n neu'n gadael trê'n (yn y rheoliad hwn "y teithiwr") pan fo naill ai paragraff (2) neu (3) yn gymwys.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os, ar yr adeg pan, ac yn yr orsaf lle, aeth y teithiwr ar y trê'n—

- (a) nid oedd unrhyw gyfleusterau ar waith i werthu tocyn teithio ar gyfer taith y teithiwr hwnnw;
- (b) nid oedd y gofynion ar gyfer arddangos hysbysiadau a bennir yn rheoliad 8 wedi'u bodloni;
- (c) arddangoswyd hysbysiad yn nodi bod y teithiwr, neu bersonau yn gyffredinol, yn cael teithio ar y trê'n neu fod yn bresennol ar y trê'n heb gael tocyn teithio; neu
- (d) roedd gweithredwr y trê'n neu'r orsaf, neu berson sy'n gweithredu neu'n honni gweithredu ar ran y gweithredwr, wedi nodi bod y teithiwr, neu bersonau yn gyffredinol, yn cael teithio ar y trê'n neu fod yn bresennol ar y trê'n heb gael tocyn teithio.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

- (a) pan fo'r teithiwr wedi teithio ar drê'n blaenorol;
- (b) ar yr adeg pan, ac yn yr orsaf ble, aeth y teithiwr ar y drê'n flaenorol gyntaf, yr oedd unrhyw un o is-baragraffau (a) i (d) paragraff (2) yn gymwys; ac
- (c) ar yr adeg pan, ac yn yr orsaf ble, newidiodd y teithiwr o unrhyw drê'n blaenorol—
 - (i) pan fo unrhyw un o is-baragraffau (a) i (d) paragraff (2) yn gymwys; neu
 - (ii) nid oedd gan y teithiwr ddigon o amser rhwng gadael un trê'n a mynd ar y trê'n nesaf i brynu tocyn teithio.

(4) Ym mharagraff (2)(a), nid oes unrhyw gyfleusterau ar waith ar gyfer gwerthu tocyn teithio—

- (a) os nad yw'r teithiwr yn gallu defnyddio unrhyw dull talu sydd ar gael i'r teithiwr ar yr adeg berthnasol; a
- (b) byddai'r teithiwr fel arfer yn gallu prynu tocyn teithio yn yr orsaf dan sylw ar yr adeg berthnasol o'r dydd gan ddefnyddio un o'r dulliau talu hynny.

(5) Ni ddylid codi tocyn cosb ar berson pan fo'r tocyn teithio y mae wedi'i ddangos, mewn ymateb i gais a wnaed o dan reoliad 4(1), yn docyn teithio dilys oni bai am y ffaith

nad yw'n ddilys ar gyfer y dosbarth teithio a ddefnyddir gan y person hwnnw os, ar yr adeg y dechreuodd y person hwnnw ddefnyddio'r dosbarth teithio perthnasol—

- (a) bod hysbysiad wedi'i arddangos yn nodi bod gan y person, neu bersonau yn gyffredinol, hawl i ddefnyddio'r dosbarth teithio hwnnw heb fod ganddo docyn teithio sy'n ddilys ar gyfer y dosbarth teithio hwnnw; neu
- (b) mae gweithredwr y trên, neu berson sy'n gweithredu neu'n honni gweithredu ar ran gweithredwr y trên, wedi nodi bod y person, neu bersonau yn gyffredinol, wedi cael caniatâd i ddefnyddio'r dosbarth teithio hwnnw heb docyn teithio sy'n ddilys ar gyfer y dosbarth teithio hwnnw.

(6) Er bod paragraff (2) neu (3) yn gymwys, caniateir codi tocyn cosb ar deithiwr os yw'r teithiwr, wrth deithio ar y trên neu ar unrhyw drên blaenorol, wedi cael gwahoddiad gan unrhyw un sy'n gweithredu ar ran gweithredwr y trên hwnnw i gael tocyn teithio sy'n ddilys ar gyfer y daith, y trên a'r dosbarth teithio a ddefnyddiwyd ac wedi gwrthod gwneud hynny.

(7) Rhaid peidio â chodi tocyn cosb ar berson sy'n bresennol ar drên, ac sy'n llonydd mewn gorsaf—

- (a) pan nad yw'r person wedi mynd ar y trên at ddibenion teithio;
- (b) pan fo'r person yn bresennol ar y trên at yr unig ddiben o roi cymorth i berson arall sydd hefyd yn bresennol ar y trên hwnnw; a
- (c) bod gan y person arall hwnnw docyn teithio dilys.

Tocynnau cosb – eithriadau i ardaloedd tocynnau gorfodol

7.—(1) Ni ddylid codi tocyn cosb ar berson a oedd yn bresennol mewn neu'n gadael ardal tocyn gorfodol, ac eithrio o ganlyniad i adael trên a gyraeddodd yr ardal docynnau orfodol honno, pan fo paragraff (2) neu (3) yn gymwys.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os, ar yr adeg, ac yn yr orsaf, yr aeth y person i'r ardal tocyn gorfodol—

- (a) nid oedd unrhyw gyfleusterau ar waith i werthu—
 - (i) tocyn teithio ar gyfer y daith y mae'r person hwnnw'n bwriadu ei gwneud; neu
 - (ii) docyn plattform sy'n caniatáu i'r person hwnnw fod yn bresennol yn yr ardal tocynnau gorfodol honno, pan nad yw'r person hwnnw'n bwriadu mynd ar drên at ddiben teithio;
- (b) nid oedd y gofynion ar gyfer arddangos hysbysiaidau a bennir yn rheoliad 8 wedi'u bodloni;
- (c) arddangoswyd hysbysiad yn nodi bod y person, neu bersonau yn gyffredinol, yn cael bod yn bresennol yn yr ardal tocynnau gorfodol honno heb gael tocyn plattform na thocyn teithio dilys; neu
- (d) weithredydd, neu berson sy'n gweithredu neu'n honni gweithredu ar ran gweithredydd—
 - (i) unrhyw drên sy'n gadael yr ardal tocynnau gorfodol honno; neu
 - (ii) yr orsaf y mae'r ardal tocyn gorfodol yn rhan ohoni,
 wedi nodi bod gan y person, neu bersonau yn gyffredinol, hawl i fynd i mewn neu fod yn bresennol yn yr ardal tocynnau gorfodol honno heb docyn plattform na thocyn teithio dilys.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os mai unig ddiben presenoldeb y person yn yr ardal tocynnau gorfodol yw rhoi cymorth i berson arall a bod gan y person arall hwnnw docyn plattform neu docyn teithio dilys sy'n caniatáu i'r person hwnnw fod yn bresennol yn yr ardal tocynnau gorfodol honno.

(4) Ym mharagraff (2)(a), nid oes unrhyw gyfleusterau ar waith ar gyfer gwerthu tocyn plattform

neu docyn teithio—

- (a) os nad yw'r person yn gallu defnyddio unrhyw ddull talu sydd ar gael i'r person ar yr adeg berthnasol; a

- (b) byddai'r person fel arfer yn gallu prynu tocyn plattform neu docyn teithio yn yr orsaf dan sylw gan ddefnyddio un o'r dulliau talu hynny.

Arddangos Hysbysiadau

8.—(1) Mae'r gofynion ar gyfer arddangos hysbysiadau fel a ganlyn.

(2) Pan nad yw unrhyw fynedfa i blatfform yn yr orsaf yn fynedfa i, neu wedi'i lleoli o fewn, ardal tocynnau gorfodol, rhaid arddangos hysbysiad sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff 1 Rhan 1 Atodlen 1 (“hysbysiad safonol”) yn y fynedfa honno.

(3) Os oes gan yr orsaf un neu ragor o ardaloedd tocynnau gorfodol, rhaid arddangos hysbysiad sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff 2 Rhan 1 Atodlen 1 (“hysbysiad ardal tocyn gorfodol”) ym mhob mynedfa i ardal tocynnau gorfodol.

(4) Rhaid i hysbysiadau safonol a hysbysiadau ardal tocynnau gorfodol gael eu harddangos hefyd mewn lleoliadau digonol o amgylch yr orsaf fel bod o leiaf un hysbysiad yn hawdd i deithwyr ei weld cyn mynd ar drên yn yr orsaf, gan gynnwys teithwyr yn newid o un trên i drên arall.

Swm y tocyn cosb

9.—(1) Pan fo tocyn cosb yn cael ei godi o dan reoliad 5(1) ar berson sy'n teithio ar drên, yn bresennol ar drên, neu'n gadael trên, swm y tocyn cosb hwnnw yw £20 neu ddwywaith y pris sengl llawn sy'n gymwys, pa un bynnag yw'r mwyaf.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “y pris sengl llawn sy'n gymwys” yw'r tocyn unffordd llawn ar gyfer y daith o dan sylw o'r orsaf gyntaf i—

- (a) yr orsaf nesaf y mae'r trên i fod i wneud galwad wedi'i threfnu ynddi; neu
- (b) yr orsaf lle mae'r person yn gadael y trên os, ar yr adeg y codiwyd y tocyn cosb—
 - (i) mae'r person yn gadael y trên; neu
 - (ii) mae'r trên yn llonydd mewn gorsaf ac mae digon o gyfle i'r person dan sylw adael y trên yn yr orsaf honno.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr “yr orsaf gyntaf” yw—

- (a) yr orsaf lle aeth y person ar y trên; neu
- (b) os nad yw'r casglwr yn gwybod pa orsaf y cyfeirir ati yn is-baragraff (a), yr orsaf ddiwethaf lle'r oedd y trên wedi gwneud galwad wedi'i threfnu.

(4) Pan fo person sy'n bresennol mewn neu'n gadael ardal tocyn gorfodol, ac eithrio o ganlyniad i adael trên a gyrhaeddodd yr ardal tocynnau gorfodol honno, yn cael tocyn cosb o dan reoliad 5(1), swm y tocyn cosb yw—

- (a) £20 neu ddwywaith y pris sengl llawn sy'n berthnasol, pa un bynnag sydd fwyaf; neu
- (b) £20 pan nad yw'r person hwnnw'n bwriadu mynd ar drên at ddiben teithio.

(5) Ym mharagraff (4)(a) “y tocyn unffordd llawn sy'n berthnasol” yw'r tocyn unffordd llawn ar gyfer taith o'r orsaf y mae'r ardal tocyn gorfodol yn rhan ohoni, i'r orsaf nesaf lle mae'r trên, y mae'r person hwnnw'n bwriadu mynd arno, i fod i wneud galwad wedi'i threfnu.

(6) Yn y rheoliad hwn mae “y tocyn sengl llawn sy'n gymwys” i'w bennu drwy gyfeirio at—

- (a) oedran y person dan sylw;
- (b) diwrnod ac amser y daith y mae'r person hwnnw'n ei gwneud, wedi'i gwneud neu'n bwriadu ei gwneud, yn ôl y digwydd; a'r
- (c) trên a'r llwybr mae'r person hwnnw'n ei ddefnyddio, wedi'i ddefnyddio neu'n bwriadu ei ddefnyddio.

Casglwyr

10.—(1) Rhaid i gasglwr feddu ar ddull adnabod y casglwr hwnnw wrth gyflawni'r swyddogaethau a roddir i gasglwyr gan y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i ddull adnabod casglwr gynnwys yr wybodaeth a bennir yn Rhan 2 Atodlen 1.

(3) Pan fo casglwr yn ei gwneud yn ofynnol i berson wneud unrhyw beth o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i'r casglwr hwnnw, os yw'r person o dan sylw yn gofyn am hynny, ddangos dull adnabod y casglwr.

(4) Nid oes gan gasglwr—

(a) sy'n methu â chydymffurfio â pharagraff (1) neu (3); neu

(b) nad yw ei ddull adnabod yn cydymffurfio â pharagraff (2),

awdurdod i'w gwneud yn ofynnol i berson wneud unrhyw beth, neu i godi tocyn cosb, o dan y Rheoliadau hyn.

(5) Ni chaiff casglwr godi tocyn cosb o dan reoliad 5(1) ond i berson sy'n teithio ar, yn bresennol ar, neu'n gadael trên os yw gweithredwr y trên hwnnw wedi awdurdodi'r casglwr i godi tocyn cosb.

(6) Ni chaniateir codi tocyn cosb ar berson sy'n bresennol mewn ardal tocyn gorfodol neu sy'n ymadael â hi, ac eithrio o ganlyniad i adael trên a gyrhaeddodd yr ardal tocynnau gorfodol honno, o dan reoliad 5(1) gan gasglwr, dim ond os yw'r casglwr wedi'i awdurdodi i godi tocyn cosb gan weithredwr—

(a) yr orsaf y mae'r ardal tocyn gorfodol yn rhan ohoni; neu

(b) unrhyw drên sy'n cyrraedd neu'n gadael yr ardal tocynnau gorfodol.

Tocynnau cosb a throseddau

11.—(1) Nid yw person y codwyd tocyn cosb iddo o dan reoliad 5(1) yn atebol i dalu pan fo achos cyfreithiol am unrhyw un o'r troseddau a bennir ym mharagraff (4) hefyd yn cael ei ddwyn yn erbyn y person hwnnw mewn perthynas â'r un methiant i ddangos tocyn plattform neu docyn teithio dilys a arweiniodd at y tocyn cosb hwnnw.

(2) Os yw person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo wedi talu'r tocyn cosb, neu ran ohono, rhaid i'r gweithredydd y codwyd y tâl cosb ar ei ran ad-dalu'r swm a dalwyd i'r person hwnnw o fewn y cyfnod o 10 diwrnod gwaith, sy'n dechrau ar y diwrnod y dygir achos cyfreithiol.

(3) Pan fo person sy'n dod o fewn paragraff (1)(a) wedi apelio yn erbyn y tocyn cosb o dan reoliad 16, ni ellir dwyn achos cyfreithiol am unrhyw un o'r troseddau a bennir ym mharagraff (4) yn erbyn y person hwnnw dim ond am yr un methiant i ddangos tocyn plattform neu docyn teithio dilys os yw'r gweithredwr, y codwyd y tocyn cosb ar ei ran, yn hysbysu'r Panel Apêl perthnasol bod y tocyn cosb wedi'i ganslo cyn—

(a) bod y Panel Apêl perthnasol wedi penderfynu ar ganlyniad yr apêl o dan reoliad 16; neu

(b) os yw'r cyfnod amser a grybwyllir ym mharagraff 6 Atodlen 2

yn dod i ben, pa un bynnag yw'r cynharaf.

(4) Y tramgwyddau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (3) yw'r tramgwyddau o dan—

(a) adran 5(3)(a) neu (b) Deddf Rheoleiddio'r Rheilffyrdd 1889(12);

(b) unrhyw is-ddeddf a wneir o dan—

(i) adran 67 Deddf Trafnidiaeth 1962(13);

(12) 1889 c. 57; cynyddwyd y ddirwy uchaf yn adran 5(3) gan Atodlen 1 i Ddeddf Rheilffyrdd Prydain 1977 (p. xvii) ac yna ei throsi wedyn i lefel 3 ar y raddfa safonol yng Nghymru a Lloegr gan adran 46 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (c. 48) ac yn yr Alban gan adran 289G Deddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1975 (c. 21).

Statws: *Dyma'r fersiwn gwreiddiol (fel y cafodd ei chreu yn wreiddiol).*

- (13) 1962 c. 46; disodlwyd is-adran (3) o adran 67 gan adran 37 Deddf Trafnidiaeth 1981 (c. 56); cafodd y gosb ym mharagraff (a), a'r ddirwy gyntaf a grybwyllir ym mharagraff (b), o'r is-adran honno eu trosi wedyn i gyfeiriadau at raddfa safonol yng Nghymru a Lloegr gan adran 46 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1982; diddymwyd adran 67 wedi hynny gan Ran 4 Atodlen 31 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (c.38) ond mae unrhyw is-ddeddfau a wnaed o dan adran 67 a oedd mewn grym yn union cyn iddo gael ei ddiddymu yn parhau mewn grym yn rhinwedd paragraff 5 Atodlen 28 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

- (ii) adran 129 Deddf Rheilffyrdd 1993(14);
- (iii) adran 219 Deddf Trafnidiaeth 2000(15);
- (iv) adran 46 Deddf Rheilffyrdd 2005(16);

Adennill tocyn cosb fel dyled sifil

12.—(1) Pan nad yw person a gafodd docyn cosb o dan reoliad 5(1) wedi talu'r tocyn cosb yn llawn, caiff y gweithredwr y codwyd y tocyn cosb ar ei ran adennill y swm sy'n weddill fel dyled sifil o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol—

- (a) ni wnaeth y person apelio o dan reoliad 16 yn erbyn y tocyn cosb o fewn y cyfnod o 21 diwrnod y darperir ar ei gyfer gan reoliad 16(1)(a);
- (b) gwnaeth y person-
 - (i) apelio o dan reoliad 16 o fewn y cyfnod hwnnw;
 - (ii) roedd y Panel Apêl perthnasol wedi hysbysu'r person nad oedd wedi caniatáu'r apêl;
 - (iii) roedd y Panel Apêl perthnasol wedi cadw at y cyfnod amser a bennir ym mharagraff 6 o Atodlen 2; a
 - (iv) ni wnaeth y person apelio o dan reoliad 17 yn erbyn y penderfyniad hwnnw o fewn y cyfnod o 14 diwrnod y darperir ar ei gyfer gan reoliad 17(1)(a);
- (c) gwnaeth y person-
 - (i) apelio o dan reoliad 17 o fewn y cyfnod hwnnw;
 - (ii) roedd y Panel Apêl perthnasol wedi hysbysu'r person nad oedd wedi caniatáu'r apêl;
 - (iii) roedd y Panel Apêl perthnasol wedi cadw at y cyfnod amser a bennir ym mharagraff 6 o Atodlen 2; a
 - (iv) ni wnaeth y person apelio o dan reoliad 18 yn erbyn y penderfyniad hwnnw o fewn y cyfnod o 14 diwrnod y darperir ar ei gyfer gan reoliad 18(1)(a); neu
- (d) gwnaeth y person-
 - (i) apelio o dan reoliad 18 o fewn y cyfnod hwnnw;
 - (ii) roedd y Panel Apêl Terfynol perthnasol wedi hysbysu'r person nad oedd wedi caniatáu'r apêl; a
 - (iii) mae'r cyfnod o 14 o ddiwrnodau, sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y derbyniwyd yr hysbysiad o'r penderfyniad, wedi mynd heibio.

Gofyniad i berson roi enw a chyfeiriad

13.—(1) Pan fo casglwr yn bwriadu codi tocyn cosb ar berson o dan reoliad 5(1), rhaid i'r person hwnnw, yn ddarostyngedig i reoliad 10(4), ddarparu ei enw a'i gyfeiriad pan fydd y casglwr yn gofyn iddo wneud hynny.

(14) 1993 c. 43; diddymwyd adran 129 gan Ran 4 Atodlen 31 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (c.38) ond mae unrhyw is-ddeddfau a wnaed o dan adran 129 a oedd mewn grym yn union cyn iddo gael ei ddiddymu yn parhau mewn grym yn rhinwedd paragraff 5 Atodlen 28 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

(15) 2000 c. 38; diddymwyd adran 219 gan Ran 1 Atodlen 13 i Ddeddf Rheilffyrdd 2005 (c.14) ond mae unrhyw is-ddeddfau a wnaed o dan adran 219 a oedd mewn grym yn union cyn iddo gael ei ddiddymu yn parhau mewn grym yn rhinwedd adran 46(4) a pharagraff 2 Rhan 2 Atodlen 13 i Ddeddf Trafnidiaeth 2005 (c. 14).

(16) 2005 c. 14; diwygiwyd adran 46 gan S.I. 2005/3050.

(2) Mae unrhyw berson sy'n methu â rhoi ei enw a'i gyfeiriad yn unol â pharagraff (1) yn euog o drosedd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol.

RHAN 3

Apeliadau

Gofynion gweithredwyr

14.—(1) Pan nad yw gweithredwr, ar unrhyw adeg, yn bodloni'r gofynion apelio, rhaid i'r gweithredwr sicrhau nad yw casglwr a awdurdodir gan y gweithredwr yn codi tocyn cosb ar ran y gweithredwr.

(2) Pan fo tocyn cosb yn cael ei godi ar berson ar ran gweithredydd a bod paragraff (4) yn gymwys, nid yw'r person yn agored i dalu'r tocyn cosb.

(3) Os yw'r person y cyfeirir ato ym mharagraff (2) wedi talu'r tocyn cosb, neu ran ohono, rhaid i'r gweithredwr ad-dalu i'r person hwnnw y swm a dalwyd o fewn y cyfnod o 10 diwrnod gwaith, gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r gweithredwr yn gwybod bod paragraff (4) yn gymwys.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

- (a) os nad oedd y gweithredwr wedi bodloni'r gofynion apelio ar yr adeg y codwyd y tocyn cosb; neu
- (b) os oes amser y gallai'r person apelio o dan reoliad 16, 17 neu 18, ac ar yr adeg honno nid yw'r gweithredwr yn bodloni'r gofynion apelio.

(5) Mae gweithredwr “yn bodloni'r gofynion apelio” at ddibenion y rheoliad hwn os yw'r gweithredwr—

(a) wedi gwneud trefniadau ar gyfer—

- (i) Panel Apêl i ystyried unrhyw apêl o dan reoliadau 16 a 17 yn erbyn tocyn cosb a godir ar ei ran, a
- (ii) Panel Apêl Terfynol i ystyried unrhyw apêl o dan reoliad 18 yn erbyn tocyn cosb a godir ar ei ran, a

(b) sefydlu a chynnal trefniant ariannol gyda'r Panel Apêl perthnasol a'r Panel Apêl Terfynol perthnasol i sicrhau bod yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag apelau o dan reoliadau 16, 17 a 18 yn erbyn tocynnau cosb a godir ar ran y gweithredwr yn cael eu talu gan y gweithredwr.

Gofynion y Panel Apêl a'r Panel Apêl Terfynol

15.—(1) Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion yn y paragraff hwn rhaid i gorff—

- (a) fod yn annibynnol yn rheolaethol ac yn sefydliadol ar unrhyw weithredwr ac unrhyw gwmni cysylltiedig â gweithredwr; a
- (b) meddu ar drefniadau i sicrhau y gall unrhyw apêl o dan reoliad 17 gael ei ystyried gan berson gwahanol i'r person a benderfynodd beidio â chaniatáu'r apêl o dan reoliad 16.

(2) Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion yn y paragraff hwn rhaid i gorff—

- (a) fod yn annibynnol yn rheolaethol ac yn sefydliadol ar unrhyw weithredwr ac unrhyw gwmni cysylltiedig â gweithredwr; a
- (b) bod yn annibynnol ar y paneli a oedd yn ystyried yr apêl o dan reoliadau 16 a 17 yn yr apêl o dan sylw.

(3) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr “cwmni cysylltiedig â gweithredwr” yw is-gwmni neu gwmni daliannol i'r gweithredwr hwnnw ac unrhyw is-gwmni neu gwmni daliannol i gwmni daliannol o'r fath (ac, at ddibenion y diffiniad hwn, mae i “is-gwmni” a “cwmni daliannol” yr ystyron a briodolir iddynt yn adran 1261(1) Deddf Cwmnïau 2006(17)); a
- (b) mae corff yn “annibynnol ar y paneli a ystyriodd yr apêl o dan reoliadau 16 a 17 yn yr apêl o dan sylw” os oes ganddo drefniadau ar waith i sicrhau y gellir cydymffurfio â'r gofyniad ym mharagraff 15(b) o Atodlen 2.

Apeliadau - cam un

16.—(1) Caiff person (“yr apelydd”) y codwyd tocyn cosb arno o dan reoliad 5(1) apelio yn erbyn y tocyn cosb hwnnw i'r Panel Apêl perthnasol—

- (a) cyn diwedd y cyfnod o 21 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y codir y tocyn cosb; neu
- (b) o fewn unrhyw gyfnod hwy a ganiateir gan y Panel Apêl perthnasol.

(2) Rhaid i apêl o dan y rheoliad hwn gael ei gwneud—

(a) yn unol â'r Weithdrefn Apelio; ac

(b) ar un neu fwy o'r seiliau a bennir ym mharagraff (3).

(3) Y seiliau y caniateir i apêl o dan y rheoliad hwn gael ei gwneud arnynt yw—

- (a) na chafodd y tocyn cosb ei godi yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn;
- (b) nid yr apelydd yw'r person sy'n atebol am dalu'r tocyn cosb;
- (c) mae'r apelydd yn berchen ar docyn tymor sy'n ddilys ar gyfer y daith o dan sylw ond nid oedd yn meddu ar y tocyn tymor ar yr adeg y codwyd y tocyn cosb; neu
- (d) mae rhesymau cryf pam, dan amgylchiadau penodol yr achos, na ddylai'r apelydd fod yn agored i dalu'r tocyn cosb.

(4) Pan fydd yr apelydd yn cyflwyno sylwadau fel rhan o apêl o dan y rheoliad hwn mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a bennir ym mharagraff (5), mater i'r gweithredwr y codwyd y tocyn cosb ar ei ran yw darparu tystiolaeth sy'n dangos yn rhesymol nad yw unrhyw ffaith a ddisgrifir gan yr apelydd mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion hynny yn wir.

(5) Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (4) yw—

- (a) mewn amgylchiadau lle y codwyd tocyn cosb ar yr apelydd mewn perthynas â theithio drwy fod yn bresennol ar drên, neu adael trên—
 - (i) ar ba drên, a thrên neu drenau blaenorol, os oedd rhai, yr oedd yr apelydd yn teithio neu wedi teithio neu ar ba drên yr oedd yr apelydd yn bresennol neu wedi bod yn bresennol;
 - (ii) ym mha orsaf yr aeth yr apelydd ar y trên ac unrhyw drên neu drenau blaenorol ac ym mha orsaf yr oedd yr apelydd yn bwriadu gadael y trên hwnnw;
 - (iii) a oedd unrhyw un o'r amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliadau 6(2) yn gymwys;
- (b) mewn amgylchiadau pan, gan fod person yn bresennol mewn neu'n gadael ardal tocyn gorfodol, ac eithrio o ganlyniad i adael trên a gyrhaeddodd yr ardal tocynnau gorfodol honno, y codwyd tocyn cosb ar yr apelydd mewn perthynas â bod yn bresennol yn yr ardal tocyn gorfodol honno neu'n ei gadael—

Statws: *Dyma'r fersiwn gwreiddiol (fel y cafodd ei chreu yn wreiddiol).*

(17) [2006 c. 46](#). Mae diwygiadau i adran 1261(1) nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(i) a oedd yr apelydd yn bwriadu teithio ar drên, ac os felly, ar ba drên ac i ba orsaf, ac os nad, rheswm yr apelydd dros fod yn yr ardal tocyn gorfodol;

(ii) a oedd unrhyw un o'r amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliad 7 yn gymwys.

(6) Rhaid i'r Panel Apêl perthnasol ystyried apêl o dan y rheoliad hwn yn unol â'r Drefn Apelio.

(7) Os yw'r Panel Apêl perthnasol, ar ôl ystyried apêl o dan y rheoliad hwn, yn dod i'r casgliad bod unrhyw sail a bennir ym mharagraff (3) yn gymwys, rhaid iddo, yn ddarostyngedig i baragraff (10), ganiatáu'r apêl.

(8) Os yw'r Panel Apêl perthnasol, ar ôl ystyried apêl o dan y rheoliad hwn, yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw sail a bennir ym mharagraff (3) yn gymwys, rhaid iddo beidio â chaniatáu'r apêl.

(9) Rhaid i'r Panel Apêl perthnasol, yn unol â'r Drefn Apelio, hysbysu'r gweithredwr o dan sylw a'r apelydd o unrhyw benderfyniad a wnaed o dan baragraff (7) neu (8).

(10) Pan fo'r Panel Apêl perthnasol yn dod i'r casgliad bod y sail ym mharagraff (3)(c) yn gymwys, caiff y Panel benderfynu peidio â chaniatáu'r apêl os yw'r gweithredwr wedi darparu tystiolaeth bod yr apelydd wedi gwneud taith ar ddau achlysur o leiaf yn flaenorol pan fo'r sail ym mharagraff (3)(c) yn gymwys.

(11) Pan fo'r Panel Apêl perthnasol—

(a) yn hysbysu'r gweithredwr bod apêl wedi'i chaniatáu; neu

(b) yn methu â chadw at y cyfnod amser a bennir ym mharagraff 6 Atodlen

2, nid yw'r apelydd yn atebol i dalu'r tocyn cosb o dan sylw.

(12) Os yw'r apelydd y cyfeirir ato ym mharagraff (11) wedi talu'r tocyn cosb, neu ran ohono, rhaid i'r gweithredwr y codwyd y tocyn cosb ar ei ran ad-dalu i'r apelydd y swm a dalwyd o fewn y cyfnod o 10 diwrnod gwaith, gan ddechrau ar ba un bynnag yw'r cynharaf o'r canlynol—

(a) y diwrnod y mae'r gweithredydd hwnnw'n cael hysbysiad bod yr apêl wedi'i chaniatáu; neu

(b) y diwrnod y mae'r cyfnod amser a bennir ym mharagraff 6 Atodlen 2 yn dod i ben.

(13) Yn y rheoliad hwn ystyr "tocyn tymor" yw tocyn sy'n rhoi hawl i'r person y mae wedi'i ddyroddi iddo wneud nifer diderfyn o deithiau mewn unrhyw gyfeiriad rhwng y gorsafoedd, neu o fewn y parthau, y mae'r tocyn yn ddilys ar eu cyfer yn ystod cyfnod penodedig p'un a yw'r hawl yn ddarostyngedig i gyfyngiadau pellach ai peidio.

Apeliadau - cam dau

17.—(1) Pan fo Panel Apêl wedi hysbysu apelydd nad yw wedi caniatáu apêl a wnaed o dan rheoliad 16, caiff yr apelydd apelio i'r Panel Apêl perthnasol yn erbyn y penderfyniad hwnnw—

(a) cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y derbynir yr hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw; neu

(b) o fewn unrhyw gyfnod hwy a ganiateir gan y Panel Apêl perthnasol.

(2) Rhaid i apêl o dan y rheoliad hwn gael ei gwneud—

(a) yn unol â'r Weithdrefn Apelio; ac

(b) ar un neu fwy o'r seiliau a bennir y rheoliad 16(3).

(3) Rhaid i'r Panel Apêl perthnasol ystyried apêl o dan y rheoliad hwn yn unol â'r Drefn Apelio.

(4) Os yw'r Panel Apêl perthnasol, ar ôl ystyried apêl o dan y rheoliad hwn, yn dod i'r casgliad bod unrhyw sail a bennir yn rheoliad 16(3) yn gymwys, rhaid iddo, yn ddarostyngedig i baragraff (7), ganiatáu'r apêl.

(5) Os yw'r Panel Apêl perthnasol, ar ôl ystyried apêl o dan y rheoliad hwn, yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw sail a bennir yn rheoliad 16(3) yn gymwys, rhaid iddo beidio â chaniatáu'r apêl.

(6) Rhaid i'r Panel Apêl perthnasol, yn unol â'r Drefn Apelio, hysbysu'r gweithredwr o dan sylw a'r apelydd o unrhyw benderfyniad a wnaed o dan baragraff (4) neu (5).

(7) Pan fo'r Panel Apêl perthnasol yn dod i'r casgliad bod y sail yn rheoliad 16(3)(c) yn gymwys, caiff y Panel benderfynu peidio â chaniatáu'r apêl os yw'r gweithredwr wedi darparu tystiolaeth bod yr apelydd wedi gwneud taith ar ddau achlysur o leiaf yn flaenorol pan fo'r sail yn rheoliad 16(3)(c) yn gymwys.

(8) Pan fo'r Panel Apêl perthnasol—

(a) yn hysbysu'r gweithredwr bod apêl wedi'i chaniatáu; neu

(b) yn methu â chadw at y cyfnod amser a bennir ym mharagraff 6 Atodlen

2, nid yw'r apelydd yn atebol i dalu'r tocyn cosb o dan sylw.

(9) Os yw'r apelydd y cyfeirir ato ym mharagraff (8) wedi talu'r tocyn cosb, neu ran ohono, rhaid i'r gweithredwr y codwyd y tocyn cosb ar ei ran ad-dalu i'r person y swm a dalwyd o fewn y cyfnod o 10 diwrnod gwaith, gan ddechrau ar ba un bynnag yw'r cynharaf o'r canlynol—

(a) y diwrnod y mae'r gweithredydd hwnnw'n cael hysbysiad bod yr apêl wedi'i chaniatáu; neu

(b) y diwrnod y mae'r cyfnod amser a bennir ym mharagraff 6 Atodlen 2 yn dod i ben.

Apeliadau - cam terfynol

18.—(1) Pan fo Panel Apêl wedi hysbysu apelydd nad yw wedi caniatáu apêl a wnaed o dan reoliad 17, caiff yr apelydd apelio i'r Panel Apêl Terfynol perthnasol yn erbyn y penderfyniad hwnnw—

(a) cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y derbynir yr hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw; neu

(b) o fewn unrhyw gyfnod hwy a ganiateir gan y Panel Apêl Terfynol perthnasol.

(2) Rhaid i apêl o dan y rheoliad hwn gael ei gwneud—

(a) yn unol â'r Weithdrefn Apelio; ac

(b) ar un neu fwy o'r seiliau a bennir y rheoliad 16(3).

(3) Rhaid i'r Panel Apêl Terfynol perthnasol ystyried apêl o dan y rheoliad hwn yn unol â'r Drefn Apelio.

(4) Os yw'r Panel Apêl Terfynol perthnasol, ar ôl ystyried apêl o dan y rheoliad hwn, yn dod i'r casgliad bod unrhyw sail a bennir yn rheoliad 16(3) yn gymwys, rhaid iddo, yn ddarostyngedig i baragraff (7), ganiatáu'r apêl.

(5) Os yw'r Panel Apêl Terfynol perthnasol, ar ôl ystyried apêl o dan y rheoliad hwn, yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw sail a bennir yn rheoliad 16(3) yn gymwys, rhaid iddo beidio â chaniatáu'r apêl.

(6) Rhaid i'r Panel Apêl Terfynol perthnasol, yn unol â'r Drefn Apelio, hysbysu'r gweithredwr o dan sylw a'r apelydd o unrhyw benderfyniad o dan baragraff (4) neu (5).

(7)

(c) Pan fo'r Panel Apêl Terfynol perthnasol yn dod i'r casgliad bod y sail yn rheoliad 16(3)(c) yn gymwys, caiff y Panel benderfynu peidio â chaniatáu'r apêl os yw'r gweithredwr wedi darparu tystiolaeth bod yr apelydd wedi gwneud taith ar ddau achlysur o leiaf yn flaenorol pan fo'r sail yn rheoliad 16(3)(c) yn gymwys.

(8) Pan fo'r Panel Apêl Terfynol perthnasol—

(a) yn hysbysu'r gweithredwr bod apêl wedi'i chaniatáu; neu

(b) yn methu â chadw at y cyfnod amser a bennir ym mharagraff 15(d) Atodlen

2, nid yw'r apelydd yn atebol i dalu'r tocyn cosb o dan sylw.

(9) Os yw'r apelydd y cyfeirir ato ym mharagraff (8) wedi talu'r tocyn cosb, neu ran ohono, rhaid i'r gweithredwr y codwyd y tocyn cosb ar ei ran ad-dalu i'r person y swm a dalwyd o fewn y cyfnod o 10 diwrnod gwaith, gan ddechrau ar ba un bynnag yw'r cynharaf o'r canlynol—

- (a) y diwrnod y mae'r gweithredydd hwnnw'n cael hysbysiad bod yr apêl wedi'i chaniatáu; neu
- (b) y diwrnod y mae'r cyfnod amser a bennir ym mharagraff 6 Atodlen 2 yn dod i ben.

RHAN 4

Darpariaethau terfynol

Dirymiad

19. Mae'r offerynnau canlynol wedi'u dirymu—

- (a) Rheoliadau 1994; a
- (b) Rheoliadau Rheilffyrdd (Tocynnau Cosb) (Diwygiad) 2005(18).

Darpariaethau Trosiannol

20.—(1) Mae tocyn cosb a godir o dan Reoliadau 1994 (“tocyn cosb cyn cychwyn”) i'w drin fel pe bai wedi ei godi o dan y Rheoliadau hyn.

(2) At ddibenion rheoliad 14, ymdrinnir â'r gweithredwr o dan sylw fel pe bai wedi bodloni'r gofynion apelio, sydd wedi'u pennu'n benodol yn rheoliad 14(5), ar yr adeg y codwyd tocyn cosb cyn cychwyn.

(3) Pan fo person y dyfarnwyd tocyn cosb cyn-gychwyn iddo wedi gwneud apêl o fewn y cyfnod o 21 diwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y codwyd y tocyn cosb hwnnw, ac nad yw'r apêl honno wedi ei dyfarnu'n derfynol cyn 6 Ebrill 2018—

- (a) mae'r person i'w drin fel pe bai wedi gwneud apêl i'r Panel Apêl perthnasol o dan reoliad 16, ac yn cydymffurfio ag ef, ar y sail a nodir yn rheoliad 16(3)(d); a
- (b) caiff y Panel Apêl perthnasol ofyn am unrhyw fanylion pellach sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ar yr apêl yn unol â'r Drefn Apelio.

(4) Pan nad yw person sydd wedi cael tocyn cosb cyn-gychwyn wedi gwneud apêl, ond nad yw'r cyfnod o 21 diwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y tocyn cosb hwnnw ei godi, wedi dod i ben cyn 6 Ebrill 2018—

- (a) mae'r tocyn cosb cyn cychwyn i'w drin at ddibenion y Rheoliadau hyn fel pe bai wedi'i godi ar 6 Ebrill 2018; a
- (b) mae'r Rheoliadau hyn yn effeithiol fel pe bai rheoliad 16(3)(a) wedi'i hepgor.

(5) Mae unrhyw berson a fyddai, yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yn cael ei drin fel casglwr awdurdodedig(19) sydd â'r hawl i godi tocyn cosb ar ran gweithredwr o dan Reoliadau 1994 (“casglwr presennol”), i'w drin fel casglwr sydd wedi'i awdurdodi i godi tocyn cosb ar ran yr un gweithredwr at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(6) Rhaid trin unrhyw ddogfen a roddwyd fel dogfen adnabod, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, gan weithredydd i gasglwr presennol, er mwyn profi bod y casglwr wedi'i awdurdodi i gasglu tocynnau cosb, fel pe bai'n ddogfen adnabod sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir yn Rhan 2 Atodlen 1, am gyfnod o 90 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(18) S.I. 2005/1095.

(19) Gweler [S.I.1994/576](#), rheoliad 2(1) am y diffiniad o “gasglwr awdurdodedig”.

Llofnodwyd gan awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth

12 Mawrth 2018

Jo Johnson
Gweinidog Gwladol yr
Adran Drafnidiaeth

ATODLEN 1 Rheoliadau 8 a 10

Hysbysiadau ac Adnabod

RHAN 1

Hysbysiadau

Hysbysiad safonol

1.—(1) Rhaid i hysbysiad safonol gynnwys—

- (a) y logo tocynnau cosb fel y'i dangosir yn Rhan 3;
- (b) y gair “RHYBUDD” mewn testun mawr, amlwg ar frig yr hysbysiad;
- (c) y geiriau “Prynwch eich tocyn cyn i chi deithio os gwelwch yn dda neu gellir codi Tocyn Cosb arnoch”;
- (d) y geiriau “Mae'r Tocyn Cosb yn £20 neu'n ddwywaith cost y tocyn unffordd ar gyfer eich siwrnai (pa un bynnag sydd fwyaf)”.
- (e) geiriad sy'n dangos lle y cyhoeddir gwybodaeth am yr amgylchiadau lle y gellir codi tocyn cosb ar berson mewn perthynas â theithio, presenoldeb ar drên neu adael trên, neu ble gellir cael gafael arni; a
- (f) y logo, ac enw os nad yw'r logo'n cynnwys enw, pob gweithredwr sy'n codi tocynnau cosb mewn perthynas â threnau sy'n cyrraedd neu'n gadael ardal yr orsaf y mae'r hysbysiad yn gymwys iddi.

(2) Nid yw absenoldeb logo neu enw, fel sy'n ofynnol gan is-baragraff (1)(f), ar hysbysiad ond yn dirymu'r hysbysiad mewn perthynas â'r gweithredwr y mae ei logo neu ei enw ar goll.

Hysbysiad ardal tocyn gorfodol

2.—(1) Rhaid i hysbysiad ardal tocyn gorfodol gynnwys—

- (a) y logo tocynnau cosb fel y'i dangosir yn Rhan 3;
- (b) y gair “RHYBUDD” mewn testun mawr, amlwg ar frig yr hysbysiad;
- (c) y geiriad—
 - (i) “Rydych ar fin mynd i Ardal Tocynnau Gorfodol”;
 - (ii) “Rhaid i chi gael tocyn platform neu docyn teithio dilys cyn pasio'r pwynt hwn”; a
 - (iii) “Neu mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu am Docyn Cosb”;
- (d) y geiriau “Mae Tocyn Cosb yn o leiaf o £20. Os ydych yn bwriadu teithio, mae Tocyn Cosb yn £20 neu'n ddwywaith cost y tocyn unffordd ar gyfer eich siwrnai (pa un bynnag sydd fwyaf)”.
- (e) geiriad sy'n nodi lle y cyhoeddir gwybodaeth am yr amgylchiadau lle y caniateir i berson gael tocyn cosb am fod mewn neu adael ardal tocyn gorfodol, neu lle y gellir cael gafael arni; a
- (f) y logo, ac enw os nad yw'r logo'n cynnwys enw, pob gweithredwr sy'n codi tocynnau cosb mewn perthynas â threnau sy'n cyrraedd neu'n gadael ardal yr ardal tocynnau gorfodol.

(2) Nid yw absenoldeb logo neu enw, fel sy'n ofynnol gan is-baragraff (1)(f), ar hysbysiad ond yn dirymu'r hysbysiad mewn perthynas â'r gweithredwr y mae ei logo neu ei enw ar goll.

RHAN 2

Dull Adnabod ar gyfer Casglwyr

3. Rhaid i'r dulliau adnabod a roddir i gasglwr (“y casglwr”) gynnwys—
 - (a) y logo tocynnau cosb fel y'i dangosir yn Rhan 3;
 - (b) y logo, ac enw os nad yw'r logo'n cynnwys enw, y gweithredwr awdurdodi;
 - (c) llun y casglwr;
 - (d) rhif adnabod y casglwr;
 - (e) y geiriad canlynol—

“Mae'r person a nodir gan y cerdyn hwn yn gasglwr ar gyfer [enw'r gweithredwr awdurdodi] o dan Rheoliadau Rheilffyrdd (Tocynnau Cosb) 2018”; a
 - (f) llofnod y person sydd, ar ran y gweithredwr awdurdodi, wedi awdurdodi'r casglwr.

RHAN 3

Logo Tocynnau Cosb



ATODLEN 2 Rheoliadau 15, 16, 17 a 18

Y Drefn Apelio

1. Rhaid i apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig a gellir ei hanfon i gyfeiriad y Panel Apêl perthnasol neu, yn ôl y digwydd, i'r Panel Apêl Terfynol perthnasol drwy—
 - (a) ei hanfon drwy bost rhagdaledig;
 - (b) ei hanfon drwy drosglwyddiad electronig;
 - (c) ei danfon i'r cyfeiriad hwnnw neu ei gadael fel arall yn y cyfeiriad hwnnw; neu
 - (d) unrhyw ddull arall a awdurdodir yn benodol gan y Panel Apêl perthnasol neu, yn ôl y digwydd, y Panel Apêl Terfynol perthnasol.
2. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at gyfnod o amser y caiff person wneud apêl ynddo yn gyfeiriad at yr amser y mae'n rhaid i'r Panel Apêl perthnasol neu, yn ôl y digwydd, y Panel Apêl Terfynol perthnasol dderbyn yr apêl.
3. Bernir bod apêl neu hysbysiad penderfynu a anfonir drwy'r post, oni phrofir i'r gwrthwyneb, wedi dod i law ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y caiff ei bostio.
4. Rhaid i apêl o dan reoliad 16 gynnwys y manylion canlynol—

Statws: Dyma'r fersiwn gwreiddiol (fel y cafodd ei chreu yn wreiddiol).

- (a) enw a chyfeiriad yr apelydd;
 - (b) rhif y tocyn cosb;
 - (c) datganiad sy'n nodi pa un neu fwy o'r seiliau apelio a bennir yn rheoliad 16(3) y dibynnir arnynt;
 - (d) datganiad sy'n nodi unrhyw sylwadau a wnaed mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'r materion a bennir yn rheoliad 16(5).
- 5.** Caiff apêl o dan reoliad 16 gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall.
- 6.** Pan fo Panel Apêl yn cael apêl o dan reoliad 16 neu 17, rhaid iddo benderfynu caniatáu neu beidio caniatáu'r apêl cyn diwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r apêl i law.
- 7.** Pan fydd Panel Apêl yn hysbysu ei benderfyniad i ganiatáu neu i beidio â chaniatáu apêl o dan reoliad 16 neu 17, rhaid iddo—
- (a) wneud hynny'n ysgrifenedig i'r gweithredwr o dan sylw ac i'r apelydd;
 - (b) rhoi rhesymau dros ei benderfyniad;
 - (c) os derbyniwyd yr apêl drwy'r post, hysbysu ei benderfyniad drwy'r post i'r cyfeiriad post y mae'r apelydd wedi'i ddarparu;
 - (d) os derbyniwyd yr apêl drwy drosglwyddiad electronig, hysbysu ei benderfyniad naill ai drwy ei drosglwyddo'n electronig i'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gan yr apelydd i gyflwyno'r apêl neu drwy'r post i'r cyfeiriad post y mae'r apelydd wedi'i ddarparu.
- 8.** Pan fo Panel Apêl yn hysbysu ei benderfyniad i beidio â chaniatáu apêl o dan reoliad 16 rhaid iddo roi datganiad i'r apelydd sy'n nodi—
- (a) bod gan y person hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Panel Apêl perthnasol;
 - (b) y byddai'r apêl yn cael ei hystyried gan berson gwahanol yn y Panel Apêl perthnasol;
 - (c) pe bai'r apêl yn aflwyddiannus, byddai gan y person yr hawl i apelio i'r Panel Apêl Terfynol perthnasol; a
 - (d) bydd gan y gweithredwr hawl i gychwyn achos llys i adennill y tocyn cosb os nad yw'r apelydd—
 - (i) yn apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Panel Apêl perthnasol o fewn y cyfnod o 14 diwrnod y darperir ar ei gyfer gan reoliad 17(1)(a); neu
 - (ii) yn talu'r tocyn cosb o fewn y cyfnod hwnnw.
- 9.** Rhaid i apêl o dan reoliad 17 gynnwys y canlynol—
- (a) y manylion a bennir ym mharagraff 4; a
 - (b) datganiad yn esbonio'r rheswm neu'r rhesymau dros yr apêl yn erbyn y penderfyniad i beidio â chaniatáu'r apêl o dan reoliad 16.
- 10.** Caiff apêl o dan reoliad 17 gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall.
- 11.** Pan fo Panel Apêl yn derbyn apêl o dan reoliad 17, rhaid i'r apêl gael ei hystyried gan berson gwahanol, a rhaid i'r penderfyniad i ganiatáu neu beidio â chaniatáu'r apêl gael ei wneud gan berson gwahanol i'r person a benderfynodd beidio â chaniatáu'r apêl o dan reoliad 16.
- 12.** Pan fo Panel Apêl yn hysbysu ei benderfyniad i beidio â chaniatáu apêl o dan reoliad 17 rhaid iddo roi datganiad i'r apelydd sy'n nodi—
- (a) bod gan y person hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Panel Apêl Terfynol perthnasol;
a

- (b) bydd gan y gweithredwr hawl i gychwyn achos llys i adennill y tocyn cosb os nad yw'r apelydd—
 - (i) yn apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Panel Apêl Terfynol perthnasol o fewn y cyfnod o 14 diwrnod y darperir ar ei gyfer gan reoliad 18(1)(a); neu
 - (ii) yn talu'r tocyn cosb o fewn y cyfnod hwnnw.
- 13.** Rhaid i apêl o dan reoliad 18 gynnwys y canlynol—
 - (a) y manylion a bennir ym mharagraff 4; a
 - (b) datganiad yn esbonio'r rhesymau dros yr apêl yn erbyn y penderfyniad i beidio â chaniatáu'r apêl o dan reoliad 17.
- 14.** Caiff apêl o dan reoliad 18 gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall.
- 15.** Pan fo Panel Apêl Terfynol yn derbyn apêl o dan reoliad 18—
 - (a) rhaid i'r apêl gael ei hystyried gan, a rhaid i'r penderfyniad i ganiatáu neu i beidio â chaniatáu'r apêl gael ei wneud gan, banel sy'n cynnwys tri o benderfynwyr;
 - (b) rhaid i'r panel y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) beidio â chynnwys unrhyw berson a oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad mewn perthynas â'r apêl o dan reoliad 16 neu 17;
 - (c) rhaid i bob penderfynwr y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) roi penderfyniad ar yr apêl; a
 - (d) rhaid i'r Panel Apêl Terfynol benderfynu caniatáu neu beidio caniatáu'r apêl cyn diwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r apêl i law.
- 16.** Os na all y penderfynwyr y cyfeirir atynt ym mharagraff 15(a) ddod i benderfyniad unfrydol i ganiatáu, neu i beidio â chaniatáu, apêl, gall y mwyafrif o'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau hynny wneud y penderfyniad.
- 17.** Pan fydd Panel Apêl Terfynol yn hysbysu ei benderfyniad i ganiatáu neu i beidio â chaniatáu apêl, rhaid iddo—
 - (a) wneud hynny'n ysgrifenedig i'r gweithredwr o dan sylw ac i'r apelydd;
 - (b) rhoi rhesymau dros ei benderfyniad;
 - (c) os derbyniwyd yr apêl drwy'r post, hysbysu ei benderfyniad drwy'r post i'r cyfeiriad post y mae'r apelydd wedi'i ddarparu;
 - (d) os derbyniwyd yr apêl drwy drosglwyddiad electronig, hysbysu ei benderfyniad naill ai drwy ei drosglwyddo'n electronig i'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gan yr apelydd i gyflwyno'r apêl neu drwy'r post i'r cyfeiriad post y mae'r apelydd wedi'i ddarparu.
- 18.** Pan fo Panel Apêl Terfynol yn hysbysu ei benderfyniad i beidio â chaniatáu apêl o dan reoliad 18, rhaid iddo roi datganiad i'r apelydd, os nad yw'r apelydd yn talu'r tocyn cosb o fewn y cyfnod o 14 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r apelydd yn derbyn penderfyniad y panel, y bydd gan y gweithredwr hawl i gychwyn achos llys i adennill y tocyn cosb.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer codi tocynnau cosb am fetu â dangos, pan fo'n ofynnol gwneud hynny, docyn neu awdurdod arall sy'n awdurdodi person i deithio ar drên neu i fod yn bresennol mewn ardal tocyn gorfodol mewn gorsaf.

Mae Rhan 1 y Rheoliadau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chwmpas y Rheoliadau ac yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Mae Rhan 2 y Rheoliadau yn gosod gofyniad i ddangos tocyn neu awdurdod arall ar gyfer teithio neu bresennoldeb ar drên neu bresennoldeb mewn ardal tocyn gorfodol (rheoliad 4). Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer codi tocynnau cosb pan fo person yn methu â chydymffurfio â'r gofynion yn rheoliad 4 ac mae rheoliadau 6 a 7 yn nodi'r amgylchiadau pan na chaniateir codi tocyn cosb. Mae rheoliad 8 ac Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr hysbysiadau y mae'n rhaid i weithredwr eu harddangos er mwyn gallu codi tocynnau cosb. Mae rheoliad 9 yn nodi swm y tocyn cosb y caniateir ei godi. Mae rheoliad 10 yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff casglwr weithredu a'r gofyniad i gasglwyr gario dogfennau adnabod. Mae rheoliad 11 yn atal person rhag bod yn atebol i dalu tocyn cosb pan fo achos cyfreithiol am droseddu yn cael ei ddwyn mewn perthynas â'r un mater. Mae rheoliad 12 yn darparu o dan ba amgylchiadau y caiff gweithredwyr adennill tocynnau cosb. Mae rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i berson y mae'n ofynnol iddo dalu tocyn cosb roi ei enw a'i gyfeiriad os yw'n ofynnol iddo wneud hynny. Mae unrhyw berson sy'n methu â gwneud hynny yn euog o drosedd.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau, ynghyd ag Atodlen 2, yn darparu mai dim ond os oes ganddynt broses apelio sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn (rheoliad 14) y caiff gweithredwr godi tocynnau cosb. Mae rheoliad 15 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i baneli apel eu bodloni ac mae rheoliadau 16 i 18, ynghyd ag Atodlen 2, yn nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn dirymu Rheoliadau Rheilffyrdd (Tocynnau Cosb) 1994 a Rheoliadau Rheilffyrdd (Tocynnau Cosb) (Diwygiad) 2005 (rheoliad 19). Mae rheoliad 20 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut y mae tocynnau cosb a godir o dan Rheoliadau Rheilffyrdd (Tocynnau Cosb) 1994, a'r personau a awdurdodwyd i gasglu tocynnau cosb o dan y rheoliadau hynny, i'w trin at ddibenion yr offeryn hwn.

Ni luniwyd asesiad effaith llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith arwyddocaol ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus. Paratowyd Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn ac mae ar gael ochr yn ochr â'r offeryn hwn ar wefan Deddfwriaeth y DU www.legislation.gov.uk.